Embargo tan 00.01 ddydd Mawrth 22 Ionawr 2008

Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig Ymchwiliad i dwbercwlosis mewn Gwartheg yng Nghymru

Ionawr 2008

Embargo tan 00.01 ddydd Mawrth 22 Ionawr 2008

Cyflwyniad

Dyma adroddiad ymchwiliad cyntaf yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. Fe'i sefydlwyd fel is-bwyllgor craffu i Bwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2007.

Nododd yr Is-bwyllgor mai TB mewn gwartheg yw un o'r heriau mwyaf difrifol sy'n wynebu amaethyddiaeth a chefn gwlad yng Nghymru heddiw. Mae ei effaith ar fywyd gwyllt, gwartheg a'r diwydiant yn tyfu'n gyflym a, hyd yma, mae'r holl bolisïau sydd wedi'u defnyddio i reoli'r clefyd wedi methu ag atal ei ledaeniad.

Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, casglodd y pwyllgor dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan nifer o wahanol sefydliadau, unigolion a chyrff, cynhaliodd nifer o sesiynau tyst a threfnodd ymweliad â Gogledd Iwerddon. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i roi tystiolaeth ac i ddarparu'r wybodaeth oedd ei hangen i'w alluogi i lunio casgliadau ac argymhellion.

Mae'n glir y bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad fuddsoddi'n sylweddol yn y seilwaith bioddiogelwch a rheoli clefydau anifeiliaid yng Nghymru. Ar hyn o bryd, nid ydym yn credu bod gennym yr hyn sydd ei angen i reoli neu ddileu'r clefyd.

Ar yr un pryd, mae'n glir bod yna gysylltiad gwirioneddol rhwng TB mewn gwartheg a'r clefyd mewn bywyd gwyllt. Er ei bod hi'n bosibl rheoli'r clefyd trwy roi mesurau bioddiogelwch ar waith, ni fydd hyn yn ddigon i ddileu'r clefyd. Mae'r Pwyllgor bellach yn credu'n sicr y dylai'r Llywodraeth fabwysiadu dull cyfannol a fydd yn trechu'r clefyd mewn bywyd gwyllt ac mewn gwartheg.

Hefyd, hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r staff, Virginia Hawkins, Joanne Clinton a Carys Jones, am eu cymorth a'u gwaith caled wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.

Alun Davies AC
Cadeirydd

1. Cefndir

1.1 Mae TB mewn gwartheg wedi dod yn broblem fawr yng Nghymru. Ers 1998, pan ddifawyd 1,046 o wartheg a chyfyngwyd ar symudiadau 312 o fuchesau o dan fesurau rheoli TB, mae'r ffigurau wedi codi'n raddol ac, yn 9 mis cyntaf 2007, difawyd 5,034 o wartheg a chyfyngwyd ar symudiadau 1,945 o fuchesau[1]. Mae'r gost i Lywodraeth y Cynulliad o daliadau iawndal i ffermwyr wedi codi o £1 miliwn ym 1999/00 i dros £11 miliwn yn 2006/07.

1.2. Yn 2004, cynhaliodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (EPC) y Cynulliad adolygiad polisi mewn perthynas â TB mewn gwartheg yng Nghymru, a chyflwynodd gyfres o argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad[2] (*Pwyllgor EPC, Awst 2004*), a derbyniwyd pob un ohonynt. Ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor, mae'r achosion TB mewn gwartheg yng Nghymru wedi cynyddu bob blwyddyn.

1.3. Ym 1997, sefydlwyd y Grŵp Gwyddonol Annibynnol (ISG) ar TB mewn Gwartheg i gynllunio a goruchwylio treial difa moch daear ar hap (RBCT) i asesu'r effaith o ddifa moch daear ar ledaeniad TB mewn gwartheg, yn ogystal â chynnal

[1] *Ystadegau TB Defra* http://www.defra.gov.uk/animalh/tb/stats/latest.htm
[2] Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, *Inquiry into Bovine Tuberculosis,* Awst 2004

ymchwil i ddiagnosis, pathogenesis, deinameg a'r gwaith o reoli TB mewn gwartheg a moch daear. Cyhoeddodd y grŵp ei adroddiad terfynol ym mis Mehefin 2007[3].

1.4. Yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2007, penderfynodd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig newydd y dylai ei ymchwiliad craffu cyntaf asesu cynnydd Llywodraeth y Cynulliad o ran rhoi argymhellion y Pwyllgor EPC ar waith a'i hymateb i adroddiad yr ISG.

Adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor EPC

1.5 Roedd cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:

> Ymchwilio i sut y gall Llywodraeth y Cynulliad gyfrannu at y gwaith o reoli *M. bovis* trwy ei bwerau cyfredol.
>
> Adolygu'r gwaith hirdymor o reoli a lleihau *M. bovis* trwy brosesau rheoli ac arfer gorau iechyd a lles anifeiliaid, gan gydnabod y dystiolaeth wyddonol sydd ar gael.

1.6 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan wyddonwyr, ffermwyr, swyddogion milfeddygol, grwpiau bywyd gwyllt a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad rhwng Chwefror a Mai 2004. Gwnaed nifer o argymhellion – mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

1.7 Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod rhaid i ddewisiadau mewn perthynas â rheoli TB mewn gwartheg ystyried nifer o faterion cymhleth, gan gynnwys y clefyd ei hun, ei ledaeniad, rôl bywyd gwyllt a datblygu dulliau rheoli a phrofi. Yn aml, mae yna wrthdaro rhwng buddiannau ffermwyr, grwpiau bywyd gwyllt a'r cyhoedd mewn perthynas â sut i reoli'r clefyd. Caiff rhai o'r materion sy'n gysylltiedig â TB mewn gwartheg eu crynhoi yn yr adroddiad fel a ganlyn:

- Nid ydym yn deall pob dim am ledaeniad TB mewn gwartheg a bywyd gwyllt. Mae llawer o waith ymchwil wedi'i gwblhau ac yn parhau i gael ei wneud. Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil hwn yn hirdymor gan nad oes ateb ymarferol yn amlwg yn y byrdymor.
- Nid yw profion cyfredol TB mewn gwartheg yn gwbl ddibynadwy. Mae profion TB mewn moch daear a mathau eraill o fywyd gwyllt yn llai dibynadwy. Y prawf croen yw'r unig brawf a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae'r prawf gama interfferon yn cynhyrchu mwy o ganlyniadau cadarnhaol anghywir.
- Mae llawer yn credu bod moch daear yn trosglwyddo TB buchol, ond nid yw hyn wedi cael ei brofi'n bendant ac mae rôl y mochyn daear yn hyn i gyd yn ansicr. O ganlyniad, mae llawer o ffermwyr yn cefnogi rhyw ddull o reoli moch daear, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae TB yn broblem barhaus. Mae grwpiau gwarchod moch daear yn gwrthwynebu hyn.
- Ni wyddir i ba raddau y mae trosglwyddiad o fuwch i fuwch yn cyfrannu at ledaeniad TB. Gall mesurau hwsmonaeth gwartheg a bioamrywiaeth mwy llym leihau lledaeniad TB o bosibl. Sefydlodd Defra adolygiad annibynnol o fesurau hwsmonaeth gwartheg a gynigiodd sawl mesur a all leihau'r perygl o TB mewn gwartheg.
- Roedd yr argymhellion yn cynnwys atal bywyd gwyllt rhag cael mynediad i adeiladau fferm a storfeydd bwyd, rhoi ffensys o gwmpas brochfeydd moch daear i atal gwartheg rhag cael mynediad iddynt, cyfyngu ar ddwyseddau stoc mewn adeiladau a mesurau bioddiogelwch cyffredinol eraill. Hwyrach y bydd ffermwyr yn amharod i roi mwy o fesurau bioddiogelwch ar waith heb gymorth ariannol neu os byddant yn cael effaith negyddol ar fusnes.
- Mae brechlyn gwartheg a/neu foch daear wrthi'n cael ei ddatblygu, ond ni fydd brechlyn sy'n addas i'w ddefnyddio'n eang ar gael am o leiaf 10 mlynedd.

[3] *Bovine TB: the Scientific Evidence,* Adroddiad Terfynol y Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB mewn Gwartheg, Mehefin 2007 http://www.defra.gov.uk/animalh/tb/isg/pdf/final_report.pdf

Adroddiad terfynol yr ISG

1.8 Ym 1998, dechreuodd y Grŵp Gwyddonol Annibynnol (ISG) ar TB mewn Gwartheg ar y gwaith o weithredu argymhellion Adroddiad Krebs ar TB mewn gwartheg. Roedd cylch gorchwyl y grŵp fel a ganlyn:

> Cynghori Gweinidogion ar weithredu argymhellion Adroddiad Krebs[4] ar TB mewn gwartheg a moch daear trwy:
>
> - Oruchwylio'r gwaith o gynllunio a dadansoddi'r treial ar hap i brofi effeithiolrwydd difa moch daear fel dull o reoli TB mewn gwartheg
> - Monitro cynnydd a chanlyniadau'r treial yn rheolaidd ac asesu unrhyw wahaniaethau pwysig mewn canlyniadau rhwng y triniaethau
> - Monitro data ar sefyllfa *Mycobacterium bovis* mewn ardaloedd a rhywogaethau y tu allan i'r treial
> - Cyflwyno adroddiad ar gynnydd i'r Gweinidogion, a
> - Chynghori ar faterion cysylltiedig, yn ôl y gofyn.

1.9 Dyma'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad:

- Credir bod gan fesurau rheoli sy'n targedu gwartheg yn uniongyrchol y potensial i wrthdroi'r cynnydd mewn achosion o TB mewn gwartheg ac i atal ei ledaeniad daearyddol
- Er bod moch daear yn cyfrannu'n sylweddol at drosglwyddo'r clefyd, mae dull trosglwyddo o fuwch i fuwch yn bwysig iawn hefyd
- Byddai gwell mesurau rheoli, goruchwylio a phrofi yn lleihau'r trosglwyddo
- Er bod difa yn lleihau dwyseddau moch daear, mae ei effaith ar gyfradd cysylltiadau heintus â gwartheg yn anodd i'w rhagweld gan ei fod yn cynyddu mynychder yr heintiad ymhlith moch daear
- Darparodd y treial dystiolaeth o gysylltiadau rheng *M. bovis* mewn gwartheg a moch daear
- Mae'r treial wedi dangos y gall difa moch daear gael effeithiau buddiol a niweidiol ar reoli TB mewn gwartheg
- Nid yw difa moch daear yn adweithiol yn y ffyrdd a fabwysiadwyd gan y treial yn cynnig effaith ddigon buddiol i'w wneud yn ddefnyddiol fel dewis polisi ymarferol
- Ar y cyfan, ymddengys fod dull difa adweithiol yn cael effaith niweidiol. Ar y llaw arall, roedd dull difa rhagweithiol yn lleihau'r achosion o TB mewn gwartheg yn yr ardaloedd dan sylw, ond roedd y dull hwn yn cael effaith niweidiol ar dir cyfagos
- Mae'n rhaid ystyried yn ofalus a yw manteision cyffredinol difa moch daear yn cyfiawnhau'r costau
- Mae yna gyfyngiadau i'r prawf croen twbercwlin
- Gall symud gwartheg achosi i fuches gael ei heintio â TB mewn ardaloedd nad yw'r heintiad *M. Bovis* i'w weld
- Gall gwella'r prawf gama interfferon ddatblygu gwell diagnosis
- Gellid cyflwyno bylchau llai rhwng profion cychwynnol a dilynol
- Mae canlyniadau ardal y driniaeth adweithiol yn dangos canlyniad economaidd niweidiol

[4] *Bovine tuberculosis in cattle and badgers:* adroddiad I'r Gwir Anrh Dr Jack Cunningham AS gan y Grŵp Adolygu Gwyddonol Annibynnol (Cadeirydd: Yr Athro John R. Krebs) 1997, MAFF
http://www.defra.gov.uk/animalh/tb/publications/krebs.htm

- Nid oes mantais economaidd net mewn ardaloedd triniaeth ragweithiol felly, o ran yr economi, mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad na fyddai gwerth i'r gweithgarwch
- Ar y cyfan, mae'r ISG yn credu na all difa moch daear gyfrannu at y gwaith o reoli TB mewn gwartheg ym Mhrydain ac y byddai mwy o fesurau rheoli sy'n targedu gwartheg yn fwy effeithiol.

2. Materion allweddol a nodwyd o'r dystiolaeth

2.1 Yn ystod ei ymchwiliad, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan randdeiliaid, yn ogystal â'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a swyddogion y llywodraeth a rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon. Byddai'r Pwyllgor wedi hoffi cael tystiolaeth o Weriniaeth Iwerddon, ond gwrthodwyd sawl cais am wybodaeth. Mae rhestr lawn o'r rheini sy'n darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor yn Atodiad B.

Ymatebion i Adroddiad Terfynol y Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB mewn Gwartheg

Cyffredinol

2.2 **Darparodd gwaith yr ISG dystiolaeth wyddonol bwysig o'r cysylltiad rhwng TB mewn gwartheg a moch daear;** felly mae angen persbectif ecolegol ar reoli'r clefyd. Mae canfyddiadau'r ISG yn amlygu effaith difa ar ecoleg ac ymddygiad moch daear, yn ogystal ag effaith eu hymddygiad ar epidemioleg TB.

2.3 **Dylid ystyried canfyddiadau'r ISG ochr yn ochr â thystiolaeth arall.** Dylai'r llywodraeth ystyried yr holl dystiolaeth a'r profiadau sydd ar gael wrth ddatblygu strategaethau rheoli. Mae enghreifftiau'n cynnwys y Treial Pedair Ardal yn Iwerddon, treial Thornbury, Seland Newydd, Awstralia a'r Unol Daleithiau.

2.4 **Ni fydd canolbwyntio ar fesurau rheoli gwartheg yn unig yn darparu ateb.** Roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn credu y byddai'r dull hwn yn anghyson â thystiolaeth sy'n dangos perthynas ddaearyddol agos rhwng mathau penodol o TB mewn moch daear a gwartheg. Roedd rhai tystion yn credu y dylid cymryd camau i leihau TB mewn bywyd gwyllt i ategu newidiadau i brofion gwartheg. Nododd yr Ymddiriedolaeth Moch Daear na ddylid cynnig difa moch daear fel *quid pro quo* am roi mesurau rheoli gwartheg ar waith.

2.5 Amlygodd yr Athro Bourne y ffaith bod y clefyd yn gylchol – mae moch daear yn cyfrannu at y clefyd mewn gwartheg; mae gwartheg yn cyfrannu at y clefyd mewn moch daear; mae gwartheg yn cyfrannu at y clefyd mewn gwartheg. **Byddai angen ystyried moch daear a gwartheg wrth ystyried dull o ddileu'r clefyd.** Yr unig ffordd o ddileu'r clefyd fyddai trwy gyflwyno mesur a fyddai'n effeithio'n rymus ar y clefyd mewn gwartheg ac yr un mor rymus ar fywyd gwyllt, dull a fyddai'n arwain at ddileu moch daear bron yn gyfan gwbl.

2.6 Mae gwaith yr ISG yn dangos nad yw difa moch daear yn effeithiol heblaw dros ardaloedd mawr iawn, ac mae'n waith costus iawn. **Roedd rhai o'r tystion yn credu bod hyn yn golygu nad oedd strategaethau difa yn gynaliadwy fel dewis i reoli'r clefyd yn yr hirdymor.** Defnyddiodd yr RSPCA enghraifft Thornbury fel enghraifft o ardal lle cafodd y brochfeydd eu hailwenwyno 515 o weithiau yn ystod saith mlynedd y treial, er gwaethaf yr ardal ddaearyddol fawr.

2.7 **Er bod llawer o dystion yn amddiffyn cadernid gwyddonol y treial, roedd eraill yn ei feirniadu.** Nododd yr RSPCA a'r Ymddiriedolaeth Moch Daear bod y broses adolygu gan gymheiriaid, y gwaith craffu ac archwilio annibynnol a'r ffaith bod canfyddiadau'r ISG wedi'u cyhoeddi yn ystod y treial yn dangos bod canfyddiadau'r ISG yn wyddonol gadarn. Clywodd y Pwyllgor gan yr Athro Bourne fod cadernid gwyddonol yn rhan annatod o'r gwaith. Treuliwyd llawer o amser yn cynllunio'r treial i sicrhau y byddai'n ateb y cwestiwn a all difa moch daear gyfrannu at reoli TB mewn gwartheg, yn ogystal â darparu tystiolaeth epidemiolegol o'r ecoleg a TB mewn moch daear. Dewiswyd cyhoeddi'r casgliadau mewn cyfnodolion gwyddonol blaenllaw, sef *Nature*, *PNAS*, y *Journal of Ecology* a'r *Journal of Zoology*, gyda chanolwyr gwyddonol rhyngwladol.

2.8 **Roedd llawer yn credu nad oedd casgliadau'r ISG yn cyfateb i'w canfyddiadau nhw**. Yn eu tystiolaeth nhw, roedd yr undebau ffermio a'r CLA yn credu bod casgliadau'r ISG yn adlewyrchu'r namau yng nghynllun yr RBCT, yn hytrach na dangos na fyddai difa moch daear yn ateb y broblem.

Cynllun y Treialon Difa Moch Daear ar Hap (RBCT)

2.9 **Nid yw'r strategaeth ddifa a fabwysiadwyd gan yr ISG yn ateb y broblem o TB mewn bywyd gwyllt.** Cyfeiriodd yr RSPCA at y dewisiadau rheoli gwartheg a drafodwyd ym Mhennod 10 adroddiad yr ISG, gan ei fod yn credu eu bod yn darparu dadleuon cryf yn erbyn difa. Beirniadodd yr undebau ffermio a'r CLA effeithlonrwydd a methodoleg yr RBCT.

2.10 Sylwodd NFU Cymru fod nifer y moch daear oedd yn cael eu difa yn isel (yn amrywio o 20% i 70%) a bod nifer y diwrnodau maglu hefyd yn isel (8 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd), er i'r Athro Bourne esbonio bod yr ISG yn llwyddo i ddifa 73% o foch daear gydag effeithlonrwydd o 80%. **Beirniadwyd y fethodoleg ddifa hefyd**, ac awgrymwyd dulliau amgen gan gynnwys gwenwyno brochfeydd moch daear, maglu a saethu (nododd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr fod y dull hwn wedi arwain at ostyngiad o 42% mewn achosion o TB yn Iwerddon). Awgrymwyd mai'r ffactorau hyn oedd wedi achosi'r lefelau aflonyddu a welwyd yn y treial.

2.11 Dadl cynrychiolwyr y diwydiant amaethyddiaeth oedd eu bod yn credu bod gwaith yr ISG yn profi y gellir sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn achosion o TB trwy fynd i'r afael â phob fector gyda'r un ymdrech. Fodd bynnag, nododd yr RSPCA hyd yn oed pe bai'r dull maglu'n gwbl effeithlon, ni fyddai hyn yn atal yr aflonyddu.

2.12 Beirniadodd rhai tystion y ffordd roedd yr RBCT wedi'i gynllunio, er eu bod o'r farn ei fod yn darparu gwybodaeth bwysig am gynllunio strategaethau difa yn y dyfodol. Awgrymwyd bod **effaith y treial yn fwy arwyddocaol nag a amlinellwyd gan yr ISG** ac y byddai difa parhaus dros gyfnod hirach wedi cynhyrchu gwahanol ganlyniadau. Beirniadwyd yr ISG am gynnal dadansoddiad o addasiadau posibl i'r dulliau difa nad oedd yn ddigon cynhwysfawr. Fodd bynnag, nododd yr RSPCA fod **y dull a fabwysiadwyd yn rhoi sylw i ystyriaethau lles anifeiliaid.**

Yr effaith aflonyddu

2.13 **Roedd y dull difa, fel y'i defnyddiwyd yn yr RBCT, yn achosi aflonyddu ac yn cynyddu achosion o TB mewn gwartheg.** Nododd yr undebau ffermio a'r CLA dystiolaeth yn adroddiad yr ISG a oedd yn dangos y gellid disgwyl i rwystrau daearyddol ddylanwadu ar effaith difa moch daear ar TB mewn gwartheg. Awgrymwyd **y dylai Llywodraeth y Cynulliad adeiladu ar y wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ISG** ac ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu treial difa mewn ardal â ffiniau ffisegol caled ac athreiddedd ffin isel. Dylai hefyd gwmpasu ardal ddaearyddol fawr a dylid defnyddio dull difa trylwyr yn rheolaidd i sicrhau effeithlonrwydd. Lle nad oes ffiniau naturiol yn bodoli, awgrymwyd y gellid ystyried llinellau rheilffordd gan eu bod yn atal anifail rhag mynd i gyfeiriad penodol.

2.14 Roedd yr Athro Bourne yn credu y byddai angen ardal fawr iawn, rhwng 300 a 400 cilomedr sgwâr, er mwyn sicrhau bod y dull difa yn effeithiol, a byddai'r gofynion o ran adnoddau a logisteg yn enfawr. Mae model yr ISG yn awgrymu y byddai angen difa cyfran fawr o foch daear – tua 90% o'r boblogaeth – er mwyn cael effaith ar y clefyd mewn gwartheg. Byddai hyn yn golygu eu dileu bron yn gyfan gwbl ac ni fyddai modd cyfiawnhau hyn i lawer o bobl.

2.15 **Cwestiynodd yr RSCPA a oedd gweithred o'r fath yn gyfreithlon ac yn ymarferol, ac roedd yr Ymddiriedolaeth Moch Daear yn credu nad oedd y sector amaethyddol wedi cyflwyno achos economaidd dros strategaeth o'r fath nac wedi cynnig atebion i'r problemau oedd yn wynebu'r ISG.** Hefyd, mynegodd

y grwpiau hyn eu pryderon y byddai strategaeth o'r fath yn golygu dileu'r boblogaeth moch daear, ond na fyddai'n cael unrhyw effaith ar y dull trosglwyddo o fuwch i fuwch.

2.16 Dylid manteisio ar brofiadau Iwerddon. Cyfeiriodd yr RSPCA at y ffaith, er gwaethaf y ffordd y cafodd y Treial Pedair Ardal yn Iwerddon ei gynllunio (mewn ffordd a fyddai'n ei gwneud hi'n anodd i foch daear ailboblogi'r ardaloedd), bod yna dystiolaeth o ymfudiad ar ôl lleihau'r boblogaeth breswyl. Fodd bynnag, nododd y diwydiant ffermio bod hyn yn enghraifft o arfer da y dylai Llywodraeth y Cynulliad ei defnyddio yn ei strategaeth ar gyfer y dyfodol, o ystyried y gostyngiadau sydd wedi'u cyflawni yn Iwerddon.

2.17 Amlygodd yr Athro Bourne y gwahaniaethau rhwng Iwerddon a'r DU; mae dileu moch daear mewn dros 30% o'r tirfas yn Iwerddon yn un o bolisïau'r Llywodraeth. Mae hyn wedi cael effaith, ond mae eu prosesau'n wahanol iawn. Hyd yn oed yn Iwerddon, roedd hi'n anodd cynllunio treial mewn ardaloedd â ffiniau ffisegol. Canolbwyntiodd yr ISG ar ardaloedd â phroblemau ond, os yn bosibl, ceisiodd gyfateb â ffiniau a oedd yn darparu rhwystrau ffisegol, fel traffyrdd, afonydd a'r arfordir. Roedd yr Athro Bourne yn credu ei bod hi'n anodd iawn **dod o hyd i ffiniau daearyddol na all moch daear eu treiddio**, heb sôn am y problemau logistaidd o waredu moch daear i'r lefel gywir i sicrhau na fydd y sefyllfa'n gwaethygu.

Dadansoddiad cost a budd

2.18 Roedd y dadansoddiad cost a budd a gynhaliwyd gan yr ISG yn annigonol. Yn ôl beirniaid, dim ond ar gyfer y dull difa a fabwysiadwyd gan yr RBCT roedd y dadansoddiad cost a budd yn ddilys; nid oedd yn cwmpasu cyfnod digon hir; roedd yn rhy gul ac nid oedd yn ystyried materion fel costau cymdeithasol ac amgylcheddol pe bai ffermio'n mynd yn anymarferol mewn rhai rhannau o'r wlad.

2.19 Ni wnaed unrhyw ddadansoddiad cost a budd mewn perthynas â'r mesurau rheoli gwartheg arfaethedig. Credwyd bod y dadansoddiad yn rhy gyfyngedig ac y dylai fod wedi cynnwys mesurau i leihau'r lefelau trosglwyddo o foch daear i wartheg ac i'r gwrthwyneb, o ystyried bod llawer o gyswllt yn digwydd mewn adeiladau fferm.

Cyfrifoldeb a pherchnogaeth

2.20 Beirniadwyd sylwadau'r ISG nad oedd y diwydiant ffermio wedi cymryd cyfrifoldeb am broblemau'r clefyd TB. Cyfeiriodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr at gyfarfod rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym mis Awst 2006 a ddangosodd barodrwydd y diwydiant i weithio mewn partneriaeth â'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r clefyd. Mae bioddiogelwch a phrofion yn faterion pwysig iawn yn y diwydiant ffermio, yn enwedig mewn ardaloedd lle cynhelir profion rheolaidd.

Mesurau rheoli ffermydd a gwartheg

2.21 Dylid ymchwilio ymhellach i fesurau rheoli ffermydd. Roedd sawl tyst yn credu y dylid cyflawni gwaith pellach i edrych ar ffyrdd o gadw'r ddwy rywogaeth ar wahân, ac y byddai costau sylweddol yn gysylltiedig â hyn. Byddai mesurau rheoli gwartheg yn helpu gyda materion eraill mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid a, thrwy dargedu cyllid yn ofalus, gallai hyn wella ymarferoldeb economaidd ffermio. Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Moch Daear y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu astudiaeth rheoli achos i edrych ar ffyrdd o atal moch daear rhag cael mynediad i adeiladau fferm, siediau gwartheg ac ati.

2.22 Byddai angen i fesurau rheoli gwartheg fod yn gost-effeithiol ac ni ddylent rwystro arferion fferm. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r costau uwch o gynyddu'r

defnydd o g-IFN[5]; byddai gan hyn oblygiadau i gyllidebau'r Llywodraeth ac ymarferoldeb ffermydd mewn ardaloedd â phroblemau. Byddai creu parthau ledled y wlad yn unol ag ardaloedd glân sy'n dueddol o ddioddef yn creu marchnad dwy haen a fyddai'n peri anawsterau i ffermwyr yn yr ardaloedd tueddol o ran gwerthu eu da byw trwy effeithio ar batrymau prynu manwerthwyr.

2.23 Mae codi ymwybyddiaeth o fioddiogelwch ymysg ffermwyr yn hanfodol. Mae pecyn cymorth Llywodraeth y Cynulliad yn enghraifft o arfer gwych ac yn darbwyllo ffermwyr i gymryd cyfrifoldeb dros y mater. Pwysleisiodd yr Ymddiriedolaeth Moch Daear a'r RSPCA bwysigrwydd bioddiogelwch o ystyried canlyniad strategaeth ddifa yr ISG. Awgrymodd yr ISG ddull bioddiogelwch sy'n nodi ffermydd risg uchel a risg isel ac yn rheoli'r masnachu rhwng y ffermydd hynny.

2.24 Gall adweithyddion drosglwyddo'r clefyd, felly dylid eu gwaredu cyn gynted â phosibl. Roedd yr Athro Bourne yn credu bod hyn yn rhan o fioddiogelwch ac y dylai bioddiogelwch gwartheg gynnwys gwell diagnosis, rheoli symudiadau gwartheg, cwarantin, gwaredu anifeiliaid heintiedig o'r adeilad yn syth, disgyblaeth o ran lle y prynir anifeiliaid ac atal cysylltiad â ffermydd cyfagos.

Profion

2.25 Roedd gwaith yr ISG yn cefnogi'r farn y byddai mwy o brofion a mesurau rheoli gwartheg yn gwrthdroi'r clefyd yn y pen draw, ond y byddai hyn yn cymryd amser. Dylid ystyried newidiadau i fynychder profion a threfniadau profi. Dylid hefyd ystyried pa mor gost-effeithiol yw cynnal profion blynyddol. Dylid pwyso a mesur ffyrdd o gynnal sawl prawf ar yr un pryd i gynyddu effeithlonrwydd. Nododd NFU Cymru fod defnydd eang o'r prawf g-IFN wedi dangos y byddai tua 30% ychwanegol o wartheg yn cael eu cymryd allan o'r fuches genedlaethol, a fyddai'n golygu mwy o gostau iawndal. Yn gyffredinol**, cefnogir y syniad o gynnal profion blynyddol ond cydnabyddir y bydd hyn yn creu costau uwch**.

2.26 Cyfeiriodd y CLA at yr angen **i unrhyw brofion blynyddol, os cânt eu cyflwyno, leihau'r cyfyngiadau ar y fuches fel y gellir ailddechrau masnachu'n fuan**. Pwysleisiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yr angen i ddiogelu ardaloedd achosion isel. Roedd yr Ymddiriedolaeth Moch Daear yn credu y dylid datblygu profion mwy caeth os oedd ffermwyr i barhau i dderbyn iawndal o arian cyhoeddus.

2.27 Amlygodd gwaith yr ISG y problemau diagnosis o ganlyniad i ddefnyddio'r prawf twbercwlin ac argymhellodd y dylid defnyddio'r prawf g-IFN yn y dyfodol. Mae yna sawl cwestiwn yn codi mewn perthynas â phenodoldeb a sensitifrwydd. Dylid cael gwybodaeth am ddefnyddio g-IFN yn y dyfodol trwy ei ddefnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd i sicrhau gwell dealltwriaeth o sut y gall helpu i reoli'r heintiad yn y buchesau hynny. Nododd yr Athro Bourne nad oedd y prawf adwaith cadwynol polymerasau wedi'i brofi fel dull i'w ddefnyddio ar y maes. Mae wedi'i ddefnyddio mewn ymgais i nodi microbacteria yn yr amgylchedd, ond ni all wahaniaethu rhwng microbacteria marw a microbacteria byw.

Rhoi argymhellion Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar waith

Darperir adroddiad cynnydd gan Lywodraeth y Cynulliad yn Atodiad C.

2.28 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig wrth y Pwyllgor ei bod hi'n bwriadu gwario £27 miliwn ar raglen dileu TB dros y blynyddoedd 2008 – 2011. Er nad oedd hi'n gallu darparu unrhyw gynlluniau manwl, cyfeiriodd y Gweinidog at yr angen i edrych ar brofion gwartheg, bioddiogelwch ar ffermydd a'r rhyngweithio

[5] Mae Gama Interfferon (g-IFN) wedi'i ddatblygu fel dewis amgen i'r prawf croen. Cynhelir y prawf mewn labordy ar waed a gymerir o warthog yn y ffeil ac mae'n seiliedig ar ganfod ymateb imiwn i'r heintiad *M. Bovis*

rhwng gwartheg a bywyd gwyllt. Datblygir y strategaeth ddechrau 2008, gyda gwariant i gychwyn ym mis Ebrill 2008.

2.29 Nododd y Gweinidog y bydd y gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol, gan gynnwys adroddiad yr ISG a'r argymhellion a wnaed gan Syr David King i Lywodraeth y DU[6].

2.30 Caiff y Grŵp Gweithredu ar TB ei derfynu, a defnyddir y Grŵp Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid fel fforwm i drafod materion sy'n ymwneud â TB mewn gwartheg yn y dyfodol.

Cyffredinol

2.31 Roedd sylwadau cyffredinol a wnaed ar gynnydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys y canlynol:

- Dylai unrhyw ddull yn y dyfodol barhau i gael ei seilio ar wybodaeth wyddonol a dylai gynnwys strategaeth gynaliadwy hirdymor.
- Mae angen gwella ansawdd y profion; **galwodd rhai tystion am brofion blynyddol ledled Cymru i ddiogelu'r ardaloedd lle nad oes heintiad**.
- Roedd llawer o dystion yn credu y byddai **agwedd gadarn at hwsmonaeth anifeiliaid yn gwella bioddiogelwch** ac yn lleihau'r perygl o TB mewn gwartheg.
- Gellid cyflawni gwaith ychwanegol o ran ymchwilio i'r cyfraniad y gall maethiad ei wneud i reoli TB mewn gwartheg.

Materion a godwyd ar yr argymhellion unigol yn yr adroddiad

Pwyllgor ECP – Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth y Cynulliad gymryd camau uniongyrchol i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg yng Nghymru, fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn. Dylai dull Cymru o fynd i'r afael â TB fod yn gyfannol ac yn bragmatig a dylai gynnwys pob agwedd sy'n gysylltiedig â lledaeniad y clefyd. Dylid datblygu mesurau mewn partneriaeth â phob grŵp rhanddeiliaid ac yn seiliedig ar wybodaeth wyddonol gyfredol.

2.32 **Yn gyffredinol, nid ydym yn credu bod Cymru wedi mabwysiadu dull cyfannol o fynd i'r afael â TB**. Roedd y diwydiant ffermio yn enwedig yn teimlo nad oedd digon wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â mesurau'n ymwneud â bywyd gwyllt, er gwaethaf y gydnabyddiaeth yng ngwaith yr ISG bod moch daear yn un o brif achosion y clefyd a'r ffaith bod digon o dystiolaeth wyddonol ar gael i wneud penderfyniadau am fywyd gwyllt. Gwelodd NFU Cymru fod y diwydiant wedi cefnogi'r Ardal Triniaeth Ddwys Bioddiogelwch (ITA) ar y sail y byddai Cymru'n mabwysiadu dull cyfannol. Fodd bynnag, nododd eraill na ddylid datblygu ITA bywyd gwyllt fel cymwynas ar gyfer bioddiogelwch.

2.33 Nododd Undeb Amaethwyr Cymru ei fod wedi ymgynghori â'i aelodau i weld a ddylid newid y Cyfnodau rhwng Profion Plwyf. Roedd yr aelodau'n teimlo na ddylid newid y cyfnodau hyn gan eu bod yn seiliedig ar asesiad risg dilys.

2.34 **Mae profion cyn symud wedi'u croesawu, er bod pryderon wedi'u mynegi am gost** y fenter. Mynegodd yr Ymddiriedolaeth Moch Daear bryder ynglŷn ag a oedd gwerthu gwartheg yn ddibynnol ar dystysgrif ddilys o brawf cyn symud.

Pwyllgor ECP - Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu 'Ardal Triniaeth Ddwys' mewn ardaloedd â phroblemau yng Nghymru sydd wedi wynebu problemau

[6] Bovine Tuberculosis in Cattle and Badgers, *A Report by the Chief Scientific Adviser Sir David King,* Gorffennaf 2007 http://www.dius.gov.uk/publications/Expert%20advice%20on%20badgers%20and%20cattle%20TB.pdf

hir gyda TB, gan ymgorffori'r pwyntiau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Dylai'r gwaith hwn gael ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad.

2.35 **Ar y cyfan, mae Ardaloedd Triniaeth Ddwys wedi bod yn ddatblygiad i'w groesawu fel dull o ddarparu gwybodaeth werthfawr lle nad oedd llawer o wybodaeth yn flaenorol**. Roedd rhai tystion yn teimlo bod yna ddigon o dystiolaeth i annog ITA i edrych ar faterion bywyd gwyllt. Fodd bynnag, nododd Cyngor Cefn Gwlad Cymru fod gwaith yr ISG yn profi na ddylid ystyried ITA bywyd gwyllt trwy ddefnyddio'r dull a fabwysiadwyd gan yr RBCT.

2.36 Nododd NFU Cymru fod Ardaloedd Triniaeth Ddwys wedi'u nodi mewn ardaloedd dethol ac nad oedd unrhyw gamau wedi'u cynnig ar gyfer bywyd gwyllt heintiedig. Nid oedd ITA bywyd gwyllt wedi'i nodi chwaith. Roedd yn credu bod yna ddigon o dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o greu ITA gyda ffiniau ffisegol caled i atal aflonyddu fel y gellid defnyddio dull difa trylwyr yn rheolaidd.

2.37 **Ar y cyfan, ystyrir bod yr ITA bioddiogelwch yn ddatblygiad cadarnhaol**. Roedd tystion yn teimlo y dylid cyflwyno'r agwedd hon at fioddiogelwch yn yr ardal hon ledled Cymru. Dysgwyd gwersi pwysig y gellid eu rhoi ar waith mewn perthynas â chlefydau eraill a drosglwyddir gan anifeiliaid. Mynegwyd pryder nad oedd yr ITA bioddiogelwch yn cael ei weithredu mewn ffordd ddigon wyddonol fel y gellid ei werthuso mewn ffordd ystyrlon a chadarn.

2.38 **Roedd rhai tystion yn credu y dylid mabwysiadu mesurau bioddiogelwch sy'n gwella dulliau rheoli buchesau ac yn lleihau cysylltiad rhwng gwartheg a moch daear mewn ardaloedd risg uchel**. Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Moch Daear y dylid datblygu mecanwaith trawsgydymffurfio a fyddai'n golygu mai dim ond ffermwyr sydd wedi mabwysiadu safon ofynnol o ddiheintio fyddai'n gymwys ar gyfer iawndal, ond byddai angen asesu manteision mesurau o'r fath.

2.39 Argymhellodd yr Ymddiriedolaeth Moch Daear y dylid datblygu astudiaeth achos i edrych ar y manteision o atal moch daear rhag mynd i mewn i adeiladau fferm.

Pwyllgor EPC – Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno triniaeth ddwys i rannau eraill o Gymru os bydd gwerthusiad yn profi ei fod yn ddefnyddiol o ran rheoli TB. Dylid ystyried rhannu'r costau ariannu rhwng y diwydiant ffermio a Llywodraeth y Cynulliad.

2.40 **Os bydd y gwerthusiad yn profi eu bod yn ddefnyddiol, dylid cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â lefelau heintiad ymhlith gwartheg a bywyd gwyllt yn gyflym**. Awgrymwyd y dylid parhau i drafod rhannu'r gost a'r cyfrifoldeb rhwng y diwydiant a'r Llywodraeth.

Pwyllgor EPC – Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu Grŵp Gweithredu Cymru ar TB i ddarparu mesurau byrdymor i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg ac i ymchwilio i fesurau hirdymor fel a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Dylai'r Grŵp Gweithredu gynnwys ychydig o aelodau, yn cynnwys y rheini sy'n gallu gweithredu penderfyniadau a rhanddeiliaid. Dylai Grŵp Gweithredu Cymru ar TB fod yn atebol i'r Gweinidog, ond gyda chylch gwaith penodol ar gyfer gweithredu. Dylid cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Gweinidog a'u hysbysebu i'r holl randdeiliaid.

2.41 **Ystyrir bod creu'r Grŵp Gweithredu ar TB yn gam cadarnhaol** a fydd yn darparu fforwm trafod a chyfle i randdeiliaid ddod at ei gilydd. Roedd pob tyst am weld y grŵp hwn yn parhau. Fodd bynnag, yn ystod cyfarfod yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar 8 Tachwedd, nododd y Gweinidog dros Faterion Gwledig y byddai'r grŵp hwn yn cael ei derfynu, gyda'r Grŵp Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cael ei ddefnyddio fel y fforwm priodol ar gyfer trafodaethau o'r fath yn y dyfodol.

Argymhelliad 5

2.42 Awgrymodd y CLA y dylid creu grŵp i gyfarwyddo a monitro cynnydd ar ddatblygu brechlyn. Mae llawer o'r heriau yn dal i'w hwynebu, gan gynnwys effeithiolrwydd y brechlyn , hyd yr imiwnedd, effeithiau ar rywogaethau eraill a'r broses drwyddedu a chofrestru hirfaith.

Tystiolaeth o Ogledd Iwerddon

Nododd sawl tyst fod y strategaeth TB yng Ngogledd Iwerddon yn dangos canlyniadau cadarnhaol o ran lleihau achosion o TB, ac ymwelodd dau aelod o'r Pwyllgor â Belffast i gasglu tystiolaeth bellach.

2.43 **Prif nod rhaglen TB Gogledd Iwerddon yw rheoli TB yng Ngogledd Iwerddon, nid ei ddileu.** Roedd tystion o Undeb Amaethwyr Ulster yn dadlau y dylid ceisio dileu'r clefyd gan nad oedd yna lefel 'dderbyniol' o TB mewn gwartheg y gellid ei goddef.

2.44 Mae Rhaglen Rheoli TB Gogledd Iwerddon wedi sicrhau gostyngiad yn niferoedd y gwartheg heintiedig dros y 5 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, **dim ond i'r lefelau cyn yr achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn 2002 y mae'r ffigurau wedi gostwng. Y farn gyffredinol yw bod yna gronfa o'r clefyd sy'n anodd ei thrin.**

2.45 Dyma'r prif ddulliau a ddefnyddir yn Rhaglen TB Gogledd Iwerddon:

- **Profi pob anifail mewn buches yn flynyddol (gorfodir trwy roi cyfyngiadau caeth ar unrhyw fuches na phrofwyd yn ystod y cyfnod 12 mis)**
- **Cael gwared ar adweithydd o fewn 15 diwrnod (gyda 100% o iawndal)**[7]
- **Cyfleusterau ar gyfer cynnal profion epidemiolegol cynhwysfawr ac olrhain y clefyd**
- **Amrywiaeth o ddulliau o gyfyngu ar ledaeniad y clefyd ar ôl iddo gael ei nodi, gan gynnwys cynnal profion pellach ar fuchesau cyfagos, cyngor ar ffactorau risg ac ailbrofi ar ôl 4-6 mis**
- **System olrhain gyfrifiadurol ar gyfer gwartheg sy'n defnyddio data amser real ac sydd ar gael i ffermwyr, milfeddygon a swyddogion y llywodraeth.**

Defnyddir tua 250 o filfeddygon yng Ngogledd Iwerddon i gynnal y profion blynyddol (ar fuches o tua 1.7 miliwn o wartheg[8]). Mae 819 o filfeddygon cofrestredig yn byw yng Nghymru, er efallai bod rhai ohonynt yn gweithio y tu allan i Gymru. Mae tua 1.2 miliwn o wartheg yng Nghymru[9]. Yn 2006, roedd cyfanswm o 37,448 o ddaliadau yng Nghymru[10], gyda 26,739 yng Ngogledd Iwerddon[11].

Cytunodd Undeb Amaethwyr Ulster ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Ulster fod y mesurau yn y Rhaglen Rheoli TB yn cyfrannu at leihau'r achosion o'r clefyd.

---

[7] Coleg Brenhinol y Milfeddygon
[8] Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Ystadegau Cenedlaethol, *Ystadegau Amaethyddol Cymru 2006* http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/was2006/?lang=en
[9] Ibid.
[10] Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Ystadegau Cenedlaethol, *Ffeithiau a Ffigurau Ffermio Cymru 2007* http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/statistics/agriculture/1270792/farming-facts07-e2.pdf?lang=en
[11] Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon, *Farm and Farm Labour Statistics* http://www.dardni.gov.uk/index/dard-statistics/agricultural-statistics.htm

2.45 **Nid yw Rhaglen TB Gogledd Iwerddon yn mynd i'r afael â chyfraniad bywyd gwyllt at ledaenu TB.** Mae ymchwil yn cael ei chynnal i'r boblogaeth moch daear yng Ngogledd Iwerddon trwy ymgysylltu â Grŵp Rhanddeiliaid Moch Daear, trwy arolygu'r boblogaeth a thrwy adolygu tystiolaeth wyddonol gyhoeddedig. Caiff y dull cyfredol o reoli TB ei adolygu yng ngoleuni'r ymchwil hon.

2.46. Roedd Undeb Amaethwyr Ulster o'r farn na ellid dileu TB yng Ngogledd Iwerddon oni bai bod camau'n cael eu cymryd i atal bywyd gwyllt rhag lledaenu'r clefyd. Mabwysiadwyd dull difa tebyg i'r dull a fabwysiadwyd yng Ngweriniaeth Iwerddon nes i frechlyn addas gael ei ddatblygu.

2.47 Roedd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Ulster o'r farn bod y camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd yn ddigonol ac nad oedd yna ddigon o dystiolaeth wyddonol o'r cysylltiad achosol rhwng heintiad gwartheg a bywyd gwyllt i gyfiawnhau difa.

3. Casgliadau

3.1 Ar ôl caglu tystiolaeth yng Ngogledd Iwerddon, credwn y dylai unrhyw Strategaeth TB a gynhyrchir gan Lywodraeth y Cynulliad geisio dileu TB yn hytrach na'i reoli. Er hynny, rydym yn cydnabod ei bod hi'n annhebygol y caiff y nod hirdymor hwn ei gyflawni yn ystod oes y weinyddiaeth bresennol.

3.2 Mae'r mater o reoli TB mewn gwartheg yn bwnc sensitif dros ben, gyda sylwadau gwahanol iawn gan lawer o sefydliadau. Roedd yr ymateb i'r adroddiad ISG a'r cynnydd o ran gweithredu argymhellion y Pwyllgor EPC yn adlewyrchu'r farn unfrydol nad oes modd parhau â'r sefyllfa TB fel ag y mae yng Nghymru ar hyn o bryd.

3.3 Roedd gwaith yr ISG yn rhoi tystiolaeth o'r cysylltiad rhwng moch daear a gwartheg ond roedd hefyd yn pwysleisio ei bod hi'n hollbwysig nad yw'r llwybr trosglwyddo rhwng gwartheg yn cael ei anwybyddu ac roedd o blaid gwella mesurau rheoli gwartheg. Dangosodd ein hymweliad â Gogledd Iwerddon hefyd fod hyn yn elfen bwysig o'r gwaith o reoli'r clefyd. Cytunodd nifer o dystion â hyn hefyd, gan awgrymu bod gwelliannau ym meysydd hwsmonaeth anifeiliaid a bioddiogelwch, mwy o brofion a mesurau rheoli symud mwy caeth yn hollbwysig.

3.4 Ar y cyfan, nid oedd undebau'r ffermwyr yn cefnogi'r casgliad y gallai difa moch daear ar raddfa eang fethu â rheoli lledaeniad a/neu ddileu TB. Roeddynt o'r farn bod moch daear sydd wedi'u heintio â TB yn achosi'r clefyd i ledaenu ymysg gwartheg ac na fyddai'r effaith aflonyddu a welwyd yn yr astudiaeth ISG yn ffactor arwyddocaol pe bai'r moch difa'n cael eu difa ar draws ardal digon eang.

3.5 Fodd bynnag, nid oedd sefydliadau lles anifeiliaid a bywyd gwyllt yn credu ein bod yn gwybod digon am y cysylltiad achosol rhwng lledaeniad TB mewn gwartheg a phresenoldeb TB ymhlith moch daear. Ar y cyfan, maent yn cefnogi canfyddiadau'r ISG ac yn gwrthwynebu difa bywyd gwyllt fel mesur i reoli a/neu ddileu TB.

3.6 Rydym o'r farn, ar ôl adolygu'r holl dystiolaeth, bod prawf bod TB yn cael ei drosglwyddo rhwng gwartheg a moch daear. Rydym hefyd o'r farn na ellir dileu TB heb fynd i'r afael â'r haint mewn bywyd gwyllt.

3.7 Yn sgil hyn oll, credwn ein bod yn wynebu dewis amlwg – argymell difa bywyd gwyllt (yn enwedig moch daear) fel y prif ddull o reoli a/neu ddileu TB neu argymell nad yw difa bywyd gwyllt yn ddull effeithiol ac argymell mesurau eraill.

3.8 Ni chredwn fod digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i ni allu argymell y naill ddull fel un ateb i ddileu TB.

3.9 Cytunwn â llawer o'r tystion a oedd yn cefnogi dull cyfannol o reoli a dileu TB.

3.10 Soniodd llawer o'r tystion am y diffyg tystiolaeth wyddonol am y clefyd, sut caiff ei ledaenu ac ecoleg y bywyd gwyllt sydd wedi'i heintio ag ef. Roedd galw am ymchwil bellach i sawl agwedd ar y clefyd.

3.11 Cawsom dystiolaeth gan lawer o dystion am fesurau ychwanegol y gellir eu cymryd i gyfrannu at y gwaith o reoli TB. Clywsom hefyd dystiolaeth mai dim ond yn rhannol yr oedd argymhelliad adroddiad y Pwyllgor EPC i sefydlu Ardaloedd Triniaeth Ddwys (ITAs) wedi'i weithredu.

3.12 Roedd tystion yn canmol gwaith Llywodraeth y Cynulliad wrth weithredu'r ITA bioddiogelwch ac roeddynt yn pwysleisio pwysigrwydd arferion hwsmonaeth anifeiliaid da ar gyfer atal clefydau anifeiliaid rhag lledaenu. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn cefnogi'r farn y dylid cefnogi'r gwaith o drosglwyddo mwy o wybodaeth rhwng y diwydiant ffermio a gweithwyr proffesiynol milfeddygol/iechyd anifeiliaid.

3.13 Roedd yr holl dystion yn unfryd o blaid cyflwyno brechlyn TB diogel sydd wedi'i brofi ar gyfer bywyd gwyllt. Er bod y brechlyn yn cael ei dreialu yn Lloegr a Gweriniaeth Iwerddon, cydnabu mwyafrif y tystion na fyddai brechlyn defnyddiadwy yn cael ei gynhyrchu am flynyddoedd lawer.

3.14 Gwnaeth cyfraniad y system APHIS o fonitro gwartheg yng Ngogledd Iwerddon i'r Rhaglen Rheoli TB argraff dda arnom. Mae'n ymddangos bod gallu ffermwyr, milfeddygon a swyddogion i gael gafael ar wybodaeth am anifeiliaid unigol mewn amser go iawn wedi cyfrannu'n fawr at ganfod y math o'r clefyd a'i leoliad yn gyflym a rhoi mesurau ar waith i'w atal rhag lledaenu.

3.15 Clywsom dystiolaeth am y trefniadau profi sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Ar sail y dystiolaeth a gafwyd o Ogledd Iwerddon, rydym o'r farn y gallai profion blynyddol, wedi'u hariannu gan y llywodraeth wneud cyfraniad arwyddocaol at reoli TB. Rydym hefyd o'r farn bod yn rhaid cael mesurau rheoli llym, fel yng Ngogledd Iwerddon, i sicrhau bod y diwydiant cyfan yn cydymffurfio â'r profion blynyddol.

3.16 Clywsom dystiolaeth o sut gellid gwella'r gwaith o ganfod anifeiliaid sy'n adweithio'n bositif i brawf TB, e.e. y defnydd targedig o brofion g-IFN, y defnydd o dwbercwlin mwy diweddar a'r defnydd o ddulliau profi mwy newydd (mae'r rhai cyfredol wedi bod ar waith ers yr 1930au).

3.17 Cawsom dystiolaeth hefyd fod y trefniadau profi cyfredol yn parhau i adael cronfa sylweddol o glefyd nad yw'n cael ei ganfod mewn buchesi (roedd rhai amcangyfrifon mor uchel â 30%).

3.18 Credwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn fwy agored ynglŷn ag unrhyw gamau gweithredu mae'n eu cymryd fel rhan o'i strategaeth i reoli a dileu TB.

3.19 I weithredu'r argymhellion rydym wedi'u gwneud uchod, credwn fod angen i Lywodraeth y Cynulliad sefydlu seilwaith cadarn i gefnogi'r dulliau ar gyfer rheoli a dileu TB.

3.20 Cafwyd peth anghytuno ymhlith y rhai fu'n rhoi tystiolaeth ynglŷn â sut dylid talu costau'r mesurau rheoli. Ar y cyfan, roedd y diwydiant ffermio o'r farn ei fod eisoes yn ysgwyddo llawer o'r costau sy'n gysylltiedig â TB ac mai Llywodraeth y Cynulliad ddylai dalu unrhyw gostau pellach fel profion blynyddol neu brofion cyn-symud neu ragor o brofion g-IFN.

3.21 Mynegwyd pryderon hefyd am gost gynyddol iawndal a'r baich y mae hyn yn ei roi ar arian cyhoeddus. Gofynnwyd a oedd hyn yn sefyllfa gynaliadwy. Yn ein barn ni, gyda'r ddau nod o reoli TB a'i ddileu yn y pen draw, bydd lleihad mewn taliadau iawndal yn yr hirdymor wrth i nifer yr achosion o TB leihau yn gwneud iawn am wario mwy o arian ar fwy o ymchwil a mesurau rheoli yn y byrdymor.

3.22 Credwn fod angen trafodaeth ddeallus am ariannu a chost a manteision mesurau ychwanegol wrth iddynt ddod i'r fei.

Credwn fod angen i'r holl randdeiliaid dan sylw fynd i'r afael â'r broblem ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros y mesurau y gallant eu rheoli.

I grynhoi, credwn na ellir rheoli TB mewn gwartheg a'i ddileu yn y pen draw yng Nghymru trwy ddefnyddio un dull yn unig. Mae angen defnyddio cyfres o fesurau ar y cyd â'i gilydd. Credwn mai dim ond trwy gyfuniad o fioddiogelwch gwell ar ffermydd, deall a rheoli TB mewn bywyd gwyllt a chanfod a rheoli anifeiliaid sy'n adweithio a buchesi sydd mewn perygl o TB yn gyflym ac yn gywir y gellir rheoli TB yng Nghymru a'i ddileu yn y pen draw.

Argymhellion

Rwyf am gyflwyno'r gwahanol argymhellion mewn grwpiau fel eu bod yn haws i'w nodi

Amcanion polisi cyffredinol

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn cefnogi dyhead Llywodraeth y Cynulliad i ddileu TB yng Nghymru ac er mai dileu TB fydd amcan hirdymor y Strategaeth TB arfaethedig, mae'n argymell y dylai gynnwys mesurau tymor byr i reoli lledaeniad TB hefyd.

Bioddiogelwch

Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno system o fonitro gwartheg sy'n seiliedig ar y system APHIS yng Ngogledd Iwerddon i'r Rhaglen Rheoli TB. Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ymchwilio i opsiynau i ariannu ffermwyr i allu defnyddio'r system.

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agosach â llywodraeth y DU i ganfod yr ardaloedd lle nad oes digon o waith ymchwil yn cael ei gynnal ac yn treialu rhagor o ITAs yng Nghymru i weithredu unrhyw ganfyddiadau ymchwil newydd.

Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno profion blynyddol ar gyfer anifeiliaid yng Nghymru. Ar yr un pryd,

dylai hefyd roi mesurau ar waith i sicrhau bod y diwydiant cyfan yn cydymffurfio â'r profion.

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn mynd ati i annog gwaith pellach ar dechnegau profi ledled Prydain ac yn gofyn bod unrhyw dechnegau newydd sy'n cael eu datblygu yn cael eu treialu yng Nghymru.

Mesurau rheoli bywyd gwyllt

Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu cyfres o ardaloedd peilot yng Nghymru, gan barhau â'r dull a fabwysiadwyd dan yr ITAs ac annog y defnydd o ymchwil ac arferion cyfredol yn yr ardaloedd a enwir gennym isod.

Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell creu ITA yng Nghymru i ddarparu tystiolaeth bellach o effaith difa bywyd gwyllt ar ledaeniad TB mewn ardal â ffiniau pendant.

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynyddu nifer yr Ardaloedd Triniaeth Ddwys i greu ardaloedd ar gyfer bywyd gwyllt a brechu moch daear (pan ddaw'r treialon gwyddonol cyfredol i ben) yn ogystal â pharhau i ddatblygu'r ITA bioddiogelwch wrth i ymchwil bellach gael ei gwneud.

Seilwaith clefydau anifeiliaid

Argymhelliad 9: Felly, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu 'map llwybr' fel rhan o'i strategaeth sy'n cynnwys dyddiadau a thargedau allweddol ar gyfer rheoli a dileu TB.

Argymhelliad 10: Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi datganiad o berfformiad blynyddol yn erbyn y targedau hynny ac asesiad o gynnydd tuag at ddileu TB.

Argymhelliad 11: Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell y canlynol:

- **Buddsoddi i sicrhau bod digon o bractisau milfeddygol anifeiliaid mawr i gefnogi'r trefnau profi newydd;**
- **Sefydlu cyfleusterau labordy ar gyfer profion Gama Interfferon yng Nghymru;**
- **Sefydlu cyfleusterau ymchwil ar gyfer iechyd anifeiliaid a rheoli clefydau yng Nghymru;**
- **Buddsoddi i sicrhau bod anifeiliaid sy'n adweithio i'r prawf TB yn cael eu gwaredu o'r fuches o fewn dyddiadau targed caeth; a**
- **Buddsoddi yn y galedwedd a'r feddalwedd briodol fel bod pob rhan o'r diwydiant yn gallu mewnbynnu a chael gafael ar ddata cynhwysfawr.**

Argymhelliad 12: Felly, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal dadansoddiad cost a budd manwl o unrhyw fesurau ychwanegol y mae'n ystyried eu cyflwyno ar gyfer rheoli TB. Dylid cynnal trafodaeth ar ddyrannu costau gyda rhanddeiliaid perthnasol cyn i'r costau hynny gael eu dyrannu.

Pwerau

Argymhelliad 13: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu ehangder ei phwerau i sicrhau bod ganddi'r pwerau angenrheidiol i weithredu'r dull cyfannol a amlinellir uchod. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn mynd ati i gael unrhyw bwerau pellach sydd eu hangen arni fel mater o frys.